



Integrated Risk Manager

A CAMMS SOLUTION

Adroddiad Risg Strategol 2016-17

Cyngor Sir y Fflint



CYNGOR

Sir y Fflint


Flintshire

COUNTY COUNCIL

Dyddiad Argraffu: 26-Mai-2017


Crynodeb o Risg Risgiau Strategol

Asesiad Risg Cychwynnol



Bach 9.80% (5)
Cymedrol 64.71% (33)
Mawr 25.49% (13)




Asesiad Risg Presennol



Dinod 21.57% (11)
Bach 19.61% (10)
Cymedrol 45.10% (23)
Mawr 13.73% (7)

Risgiau Strategol

1 Tai




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
IP1.1.1R1	Bydd Digartrefedd yn parhau i fod yn faes o alw cynyddol oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol.	Risg Strategol	Katie Clubb - Community Support Services Manager	Suzanne Pemberton – Rheolwr Cefnogi Pobl				Agored

Effeithiau Posibl: Byddai cynnydd mewn galw gan gleientiaid y mae'n bosibl iddynt fod yn ddigartref yn cael effaith ar gapasiti o fewn y gwasanaeth. Byddai diffyg o ran y tai sydd ar gael i gyflawni'r galw hwn yn arwain at gynydd mewn tai dros dro.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae'r gwasanaeth wedi cwblhau model ragweld sy'n amlgu'r meysydd risg mwyaf ac yn cynnwys cynllun gweithredu i'w rhwystro. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys gweithgareddau i gynyddu argaeledd a lleihau rhwystrau i ganfod llety addas a fforddiadwy.

Mae rhoi'r gwasanaeth credyd cynhwysol llawn ar waith, ynghyd â chap y lwfans tai lleol yn cyflwyno risgiau pellach o ran y niferoedd sy'n cyflwyno fel pobl ddigartref ynghyd â chanfod opsiynau tai addas a adlewyrchir yn y model ragweld.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 15-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST99	Bydd y cyflenwad o dai fforddiadwy yn parhau i fod yn annigonol i ddiwallu angen y gymuned	Risg Strategol	Clare Budden - Prif Swyddog - Cymuned a Menter	Denise Naylor - Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid, Melville Evans – Rheolwr Tai Strategol a Rhaglen Adfywio (SHARP)				Agored

Effeithiau Posibl: Byddai'r effaith yn cynyddu pwysau ar ddatrysiadau tai a gwasanaethau digartrefedd.




Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol y Cyngor (SHARP) yn parhau i wneud cynnydd, gyda'r cynllun cyntaf o 12 cartref Cyngor newydd yn cael ei gwblhau ar safle blaenorol Ysgol Custom House Lane, Cei Connah. Roedd gwaith wedi dechrau hefyd ar The Walks, Fflint a fydd yn cyflwyno 92 o dai Cyngor (30) a fforddiadwy (62) ynghyd â 40 eiddo mewn safleoedd llai yng Nghei Connah, Coed-llai a'r Wyddgrug. Ym Mawrth 2017, cymeradwyodd y Cabinet waith dichonoldeb ac ymchwilio ar 22 safle arall ar draws Sir y Fflint a fydd o bosibl yn cyflawni 363 eiddo Cyngor a fforddiadwy arall. Gyda'r eiddo hyn, bydd y rhaglen gyfan yn cynnwys 507 o gartrefi sy'n cynnwys 277 eiddo Cyngor, 157 eiddo rhent fforddiadwy a 73 eiddo prynu fforddiadwy.

Mae'r Tîm Rhaglenni Tai yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio ac yn sicrhau y cyflawnir darpariaeth tai fforddiadwy o fewn cynlluniau a arweinir gan y farchnad yn unol â pholisi cynllunio ac anghenion lleol. Mae hyn yn cynnwys datblygwyr yn darparu unedau sydd wedi'u cyflwyno ar gyfer rhent fforddiadwy drwy NEW Homes Ltd neu drwy Rannu Ecwiti lle mae gennym 285 eiddo (nad yw'n cynnwys y rheiny sydd wedi'u gwerthu).

Mae'r Cyngor hefyd yn goruchwyllo cyflwyno'r grant Tai Cymdeithasol (GTC) gyda chymdeithas dai leol sy'n bartner.

Mae NEW Homes yn parhau i dyfu gyda 14 eiddo fforddiadwy arall wedi'u trosglwyddo i reolaeth y cwmni. Mae 12 arall wedi'u trefnu ar gyfer 2017/18. Nifer yr eiddo fforddiadwy a gyflawnwyd drwy'r system gynllunio yn ystod 16/17 oedd 46.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 25-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST100	Ni fydd y rhaglen waith gynyddol i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn cael ei bodloni oherwydd maint y rhaglen.	Risg Strategol	Clare Budden - Prif Swyddog - Cymuned a Menter	Sean O'Donnell – Syrfëwr Cytundebau				Agored

Effeithiau Posibl: Gall contractwyr sy'n tanberfformio yn erbyn targedau gael effaith andwyol ar gyllidebau.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae'r risg yn dal i fod yn isel gan fod Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 o'r rhaglen gyfalaf wedi'u cyflawni'n llawn.




Mae arolygiadau Blwyddyn 3 / gwaith cwmpasu wedi dechrau'n barod ac mae'r mwyafrif o'r cytundebau bellach wedi dechrau'r gwaith cyflawni ar y safle.

Mae pob ffrwd waith yn gwneud cynnydd da gyda nifer o'r cytundebau'n cael eu rhagweld i fod wedi'u cwblhau yn Chwarter 3.

Cynhelir adolygiad o'r daith hyd yma gan y Rheolwr Gwaith Cyfalaf gyda'r Rhaglennu'n cael ei adnewyddu i gipio ac ymgorffori unrhyw Fethiannau Derbyniol (Tenantiaid yn Gwrthod ac ati) sydd yna'n gwella'r rhaglen gyflawni ymhellach yn nhermau cwblhau'r gwaith cyn gynted â phosibl yn hytrach nag arwain at raglen 'pot pupur' yn nes ymlaen yn y flwyddyn olaf.

Mae strwythur diwygiedig wedi cael eu gymeradwyo hefyd gyda'r cynnydd o ran recriwtio ar 90% gyda dim ond 5 swydd ar ôl i'w hysbysebu a'u llenwi.




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
-----------	------------	-------------	-------------------	-------------------	-----------------------	---------------------	---------------	-------------

ST102	Ni fydd cyllid y Cyngor ar gyfer addasiadau a benthyciadau cartrefi yn ddigonol i ateb y galw.	Risg Strategol	Niall Waller - Rheolwr Menter ac Adfywio					Agored
-------	------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------	------------------------------------------	--	-------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------	--------

Effeithiau Posibl: Mae addasiadau'n ddyletswydd statudol ar gyfer y Cyngor. Byddai galw uwchlaw cyllidebau presennol yn creu pwysau ariannol ar y Rhaglen Gyfalaf.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae'r galw am gyllid Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi cynyddu o ran cyflymder. Er bod y galw wedi mynd y tu hwnt i ddarpariaeth y gyllideb, mae arbedion mewn manau eraill o fewn y gwasanaeth wedi gwrthbwysu hyn.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 28-Ebrill-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST103	Nid yw trigolion yn manteisio ar gymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer atgyweirio eu cartrefi.	Risg Strategol	Niall Waller - Rheolwr Menter ac Adfywio					Agored

Effeithiau Posibl: Ni fydd yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n llawn ac efallai na fydd y rhaglen yn cyflawni ei heffaith llawn o ran dod â chartrefi o safon i Sir y Fflint.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae'r gyllideb ar gyfer gwaith atgyweirio ar gartrefi wedi cael eu defnyddio'n llawn eleni.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 28-Ebrill-2017




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST104	Ni fydd disgwyliaid cwsmeriaid ar gyfer prydlondeb addasiadau a wneir drwy grantiau cyfleusterau i'r anabl yn cael eu bodloni oherwydd galwadau sy'n cystadlu ar adnoddau	Risg Strategol	Niall Waller - Rheolwr Menter ac Adfywio					Agored

Effeithiau Posibl: Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gyflenwi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) ac mae methu â gwneud hynny mewn modd amserol yn creu risg o'n herio ac effaith ar ein henw da.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae gwelliannu'n cael eu gwneud i'r broses addasiadau ar hyn o bryd gan gynnwys lleihau biwrocratiaeth y rhaglen, datblygu fframwaith er mwyn i gyflenwyr gyflymu caffael, system TG newydd i hwyluso gwaith rheoli achosion, ynghyd â gwelliant o ran prynu offer a ddefnyddir yn aml. Disgwylir y bydd y camau hyn yn lleihau'r raddfa amser ar gyfer addasiadau.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 28-Ebrill-2017




2 Byw'n Dda

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST105	Bregusrwydd a chynaliadwyedd y sector cartrefi gofal.	Risg Strategol	Neil Ayling - Prif Swyddog - Gwasa naethau Cymdeithasol	Jane M Davies – Uwch Reolwr, Diogelu a Chomisiynu				Agored

Effeithiau Posibl: Dirywiad o ran ansawdd gofal, mwy o anawsterau gyda recriwtio a chadw staff, a gostyngiad o ran capasiti yn y sector cartrefi gofal.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Cynhaliwyd uwchgynhadledd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru i drafod bregusrwydd a'r effaith ar dderbyniadau i ysbytai aciwt a rhyddhau cynnar. Cynhelir sesiynau dilynol misol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru i yrru'r camau gweithredu a gytunir yn eu blaenau. Mae darparwyr yn cymryd rhan yn y trafodaethau hyn ac mae'r gwaith o bennu ffioedd yn parhau. Mae'r rheolwr prosiect wedi ymgymryd ag ymchwil cychwynnol ac wedi canfod camau cyflym ymlaen a chyfleoedd yn y tymor canolig i dymor hir i gefnogi'r sector, ac mae'n gweithio gyda darparwyr newydd i gefnogi eu cyflwyniad i farchnad Sir y Fflint. Mae'r pwysau ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'r cap ar ofal dydd wedi arwain at gynydd o £60 i £70 yr wythnos gyda chynnydd fesul cam i £100 yr wythnos dros amser i gefnogi'r sector. Er bod cynnydd yn cael ei wneud mae'r lefel risg yn parhau i fod yn goch oherwydd bregusrwydd parhaus y sector.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 25-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST107	Ni fydd ansawdd gwasanaethau'r cartrefi gofal yn bodloni safonau gofynnol.	Risg Strategol	Neil Ayling - Prif Swyddog - Gwasa naethau Cymdeithasol	Jacque Slee – Arweinydd Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol				Wedi cau

Effeithiau Posibl: Effaith negyddol ar enw da'r Cyngor.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae cyflwyno "Progress for Providers" yn parhau; mae proffiliau un dudalen a'r pecyn croesawu wedi'u rhoi ar waith mewn 16 cartref preswyl a 3 chartref nyrsio. Mae swyddogion cytundebau wrthi'n rhoi rhagor o offerynnau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith, gyda hyfforddiant pwrpasol yn cael ei gyflwyno i staff. Bydd cartrefi gofal yn dechrau asesu eu hunain yn erbyn safonau newydd Sir y Fflint o Ebrill 2017. Mae'r risg wedi cael ei leihau i Wyrdd ac mae bellach wedi cau.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 27-Ebrill-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST108	Nid yw plant a theluoedd diamddiffyn yn cael eu cefnogi'n llawn lle nad yw gwasanaethau amlasiantaeth a phartneriaid yn symud tuag at ddull ymyrryd cynnar ac atal gyda'i gilydd.	Risg Strategol	Craig Macleod – Uwch Reolwr, Gwasanaethau Plant a'r Gweithlu	Ray Dickson – Rheolwr Gwasanaethau Gwaith Maes Plant				Agored

Effeithiau Posibl: Cyfraddau ailgyfeirio uchel, gofyn statudol i ddarparu Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth heb ei gyflawni, cynnydd mewn anghenion a chost uchel ymyrraeth, dyblygu ymdrechion ar draws asiantaethau.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae trefniadau prosiect ar waith ar gyfer datblygu Hwb Ymyrraeth Gynnar gydag seilwaith llywodraethu a chyflawni priodol. Mae ffrydiau gwaith penodol wedi cael eu datblygu a swyddogion arweiniol wedi'u hadnabod i'w gyrru yn eu blaenau. O fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol mae galw uchel am gymorth wedi'i dargedu ynghyd â gwasanaethau ymyrraeth gynnar. Mae penderfyniadau rheoli yn cael eu gwneud o ran sut y gellir defnyddio adnoddau y mae pen draw iddynt yn seiliedig ar amgylchiadau unigol a'r risg sy'n cael ei gyflwyno/sy'n gysylltiedig. Canfuwyd cyllid ychwanegol drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol i hwyluso cymorth i blant, pobl ifanc a theluoedd sydd efo anghenion cymhleth, drwy gymorth sydd wedi'i dargedu i helpu i atal eu problemau rhag gwaethygu.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 24-Ebrill-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST109	Ni fydd y galw a'r dyheadau o ran byw'n annibynnol yn cael eu cyflawni.	Risg Strategol	Neil Ayling - Prif Swyddog - Gwasanaethau Cymdeithasol	Susie Lunt – Uwch Reolwr, Gwasanaethau Integredig				Agored




Effeithiau Posibl: Capasiti annigonol o fewn darpariaeth gofal ychwanegol presennol.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae cynllun Gofal Ychwanegol Sir y Fflint, sydd i'w enwi'n Llys Raddington yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd ac mae'n parhau i fod ar y trywydd iawn o ran ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2018. Mae'r safle yng nghanol y dref a bydd yn darparu 73 rhandy, gyda chyfuniad o randai 1 ystafell wely a 2 ystafell wely. Ceir darpariaeth benodol ar gyfer pobl sy'n byw hefo demensia.

Mae datblygu cynllun Gofal Ychwanegol newydd yn Nhreffynnon yn gwneud cynnydd da ar hyn o bryd. Mae safle a ffefrir wedi'i ganfod yn hen Ysgol Perth y Terfyn ger canol y dref. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin i gwblhau dyluniadau amlinellol ac i baratoi cais cynllunio llawn erbyn Gorffennaf 2017. Bydd prosesau cynllunio llwyddiannus yn galluogi dechrau'r gwaith adeiladu gyda'r targed cwblhau yn anelu at hanner cyntaf 2019.

Gyda chynnydd cadarnhaol o ran y ddau brosiect, mae'r risg yn lleihau erbyn hyn.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 08-Mai-2017




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST110	Nid yw cyllid rhwng lechyd a'r Cyngor yn trosglwyddo'n ddidrafferth; e.e. Cartrefi Cymunedol Cymru, y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF), cronfeydd Gofal Sylfaenol.	Risg Strategol	Neil Ayling - Prif Swyddog - Gwasanaethau Cymdeithasol	Susie Lunt – Uwch Reolwr, Gwasanaethau Integredig				Wedi cau

Effeithiau Posibl: Costau cynyddol i'r Cyngor.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae £227k wedi cael ei adennill o ganlyniad i'r gwaith ar olrhain cyllid Gofal Iechyd Parhaus (GIP).

Mae gwaith yn parhau ar lunio cyfres o safonau gweithredol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC); bydd y rhain yn ffurfio'r sail i weithdy rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru i gytuno ar safonau gweithredol ar gyfer gofal iechyd a chymdeithasol. Yn nhermau'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF), cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda BIPBC i gytuno ar drefniadau ariannu parhaus a newydd. Mae'r risg wedi cau bellach.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 25-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST111	Nid yw darpariaeth y gwasanaeth yn gydlynol / integredig	Risg Strategol	Neil Ayling - Prif Swyddog - Gwasanaethau Cymdeithasol	Susie Lunt – Uwch Reolwr, Gwasanaethau Integredig				Agored




Effeithiau Posibl: Gwasanaethau a ddarperir ar y cyd sy'n aneffeithiol.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi llwyddo i recriwtio ar gyfer dwy swydd reoli allweddol o fewn y sefydliad sydd wedi creu rhywfaint o sefydlogrwydd cydweithredol eleni.

Mae rheolwyr o BIPBC yn mynychu'r Bwrdd Iechyd, Lles ac Annibyniaeth sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae Partneriaeth Strategol BIPBC/CSFf yn parhau i gyfarfod yn chwarterol ac yn cael ei chadeirio gan Brif Weithredwr Cyngor Sir y Fflint (CSFf).

Cynhelir Dydd Gwener Partneriaeth yn fisol gyda phresenoldeb o blith rheolwyr BIPBC a Phrif Swyddogion CSFf; bydd rheolwyr BIPBC hefyd yn mynychu cyfarfodydd Penaethiaid fel y bo'n berthnasol i drafod materion penodol. Cynhelir trafodaethau'n rhanbarthol ac yn lleol mewn perthynas â'r modd gorau o yrru ymlaen y gwaith o ddatblygu cyllidebau cyfun. Mae'r lefel risg yn parhau i fod yn ambr oherwydd gallu'r Cyngor i gyflawni hyn erbyn 2018 fel y bo angen gan y Ddeddf.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 08-Mai-2017




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogio n Ategol	Mesur Risg Cychwynn ol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST112	Nid yw'r trefniadau diogelu yn bodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (GCLI).	Risg Strategol	Neil Ayling - Prif Swyddog - Gwasanaethau Cymdeithasol	Jane M Davies - Uwch Reolwr, Diogelu a Chomisiynu				Agored

Effeithiau Posibl: Beirniadaeth gan y rheoleiddiwr.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Cyflwynwyd modiwl penodol ar ddiogelu i weithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn unol â'r ddeddf. Mae gweithdrefnau diogelu'n cael eu diwygio'n unol â'r Ddeddf, a chyflwynir hyfforddiant ar y rhain. Mae modiwlau E-ddysgu ar Ddiogelu ar gael bellach ar Academi Sir y Fflint. Cyflwynir gweithdai hanner diwrnod rhyngweithiol ym Mehefin 2017.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 25-Mai-2017




3 Economi a Menter

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST113	Gallai Pwerdy'r Gogledd a'r Bartneriaeth Menter Leol (LEP) beri risgiau i dwf economi Sir y Fflint os na chaiff pwerau a rhyddidau eu datganoli yn unol â'r rheini a gaiff eu datblygu yn Lloegr.	Risg Strategol	Clare Budden – Prif Swyddog – Cymuned a Menter	Niall Waller – Rheolwr Menter ac Adfywio, Rachael Byrne – Rheolwr Menter				Agored

Effeithiau Posibl: Os cytunir ar becyn bargaen twf ar gyfer ardal Sir Gaer / Warrington yna bydd yn dod â gallu'r partneriaid lleol at ei gilydd i reoli'r economi'n lleol gyda buddsoddiad newydd, yn ogystal â phwerau datganoledig sy'n caniatáu ymagwedd ymatebol i ddiwallu anghenion lleol. Mae gan hyn y potensial i wneud yr ardal yn fwy deniadol i fuddsoddiad busnes newydd ac i alluogi pobl leol i gael y budd mwyaf o dwf economaidd.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Gwnaed gwaith helaeth i gyflwyno'r achos o ran cynyddu'r pwerau sy'n cael eu datganoli fel rhan o ddatblygu Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru. Cafwyd trafodaethau cadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rôl y Bwrdd Uchelgais Economaidd i'r dyfodol ynghyd â'r ymagwedd sy'n datblygu o ran gweithio ar lefel ranbarthol fel dewis amgen i Ad-drefnu Llywodraeth Leol a all helpu gyda'r broses hon.


Diweddarwyd Ddiwethaf: 28-Ebrill-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST114	Ni fydd buddsoddiad seilwaith yn dal i fyny â'r anghenion a chaiff busnes ei golli i'r economi.	Risg Strategol	Clare Budden – Prif Swyddog – Cymuned a Menter	Niall Waller – Rheolwr Menter ac Adfywio				Agored

Effeithiau Posibl: Byddai'r effaith bosibl yn cynnwys busnesau'n dewis peidio â lleoli yn Sir y Fflint, busnesau presennol yn ei chael yn anoddach cyfiawnhau aros yn yr ardal ynghyd ag ansawdd bywyd yn dirywio, er enghraifft, lle mae tagfeydd traffig yn cynyddu.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae Sir y Fflint wedi gweithio gyda phartneriaid ledled Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr i ddatblygu gweledigaethau uchelgeisiol ar gyfer twf economaidd yn ardal Gogledd Cymru a Sir Gaer/Warrington. Mae'r ddwy weledigaeth yn nodi'r buddion economaidd y gellir eu gwredu yn y rhanbarth ynghyd â'r seilwaith y mae ei angen i'w cyflawni. Cyflwynwyd y rhain i Lywodraeth y DU eu hystyried. Mae gwaith pellach ar fynd hefyd i ganfod rhwystrau i ddatblygu'r safleoedd datblygu strategol allweddol yn Sir y Fflint. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi buddsoddiad mawr yn seilwaith y ffyrdd yn Sir y Fflint ac mae'n datblygu Metro Gogledd Cymru a fydd yn moderneiddio'r seilwaith cludiant yn y rhanbarth.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 28-Ebrill-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST115	Ni fydd y gefnogaeth i fusnesau yn Sir y Fflint yn diwallu eu hanghenion gan fethu â denu buddsoddiad.	Risg Strategol	Clare Budden – Prif Swyddog – Cymuned a Menter	Niall Waller – Rheolwr Menter ac Adfywio, Rachael Byrne – Rheolwr Menter				Agored

Effeithiau Posibl: i) Lefel is o fuddsoddiad ii) Lefel is o gyflogaeth iii) Methiant i wireddu buddion ehangach i'r sir o fuddsoddiad gan fusnesau.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Bu'r Cyngor yn gweithio'n agos â buddsoddwyr posibl ac mae'r gyfradd drosi'n parhau i fod yn uchel. Bu Wythnos Busnes Sir y Fflint 2016 yn llwyddiannus iawn gyda nifer o ddigwyddiadau'n cael presenoldeb da, ac mae'n parhau i fod yn fodd poblogaidd a chost effeithiol o ymgysylltu â'r gymuned fusnes a'i chefnogi, gan alluogi busnesau i rwydweithio a masnachu gyda'i gilydd. Er gwaethaf y ffaith fod y gwasanaeth yn Sir y Fflint yn fach, mae'r ymatebion a'r gefnogaeth gan fusnesau'n gadarnhaol iawn.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 28-Ebrill-2017




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST116	Ni fydd pwerau datganoledig yng Nghymru yn cyfateb i'r rheini yn Lloegr.	Risg Strategol	Clare Budden – Prif Swyddog – Cymuned a Menter	Niall Waller – Rheolwr Menter ac Adfywio				Agored

Effeithiau Posibl: Bydd gan ardaloedd a chanddynt ystod ehangach o bwerau datganoledig y potensial i reoli eu heconomi mewn modd mwy ymatebol ac maent yn gallu gwneud penderfyniadau'n gyflym ar draws ystod o feysydd gwasanaeth. Mae hyn yn rhoi mantais sylweddol iddynt o ran creu'r amodau ar gyfer twf busnes llwyddiannus ac mae ardaloedd cyfagos yn fwy tebygol o gael anhawster cystadlu am fuddsoddiad busnes newydd.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Gwnaed cynnydd sylweddol o ran datblygu cais twf ar gyfer Gogledd Cymru ac o ran trafodaethau cadarnhaol gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch y camau nesaf yn ei ddatblygiad. Mae gwaith partneriaeth trawsffiniol yn eithriadol o gryf ac mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu datblygiad elfennau trawsffiniol ar gyfer y weledigaeth.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 28-Ebrill-2017




4 Sgiliau a Dysgu

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST117	Nid yw cyflogwyr lleol a darparwyr dysg yn gweithio'n ddigon agos i ganfod a diwallu anghenion sy'n seiliedig ar sgiliau ar gyfer y dyfodol.	Risg Strategol	Jeanette Rock - Prif Swyddog Addysg, Cynhwysiad	Claire Homard – Uwch Reolwr – Gwella Ysgolion				Agored

Effeithiau Posibl: Nid oes gan breswylwyr Sir y Fflint y sgiliau priodol i gwrdd â gofynion y farchnad lafur.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn bwydo i mewn i'r fforymau i ddarparu tystiolaeth bellach ynghylch anghenion gweithwyr o ran sgiliau ar gyfer y dyfodol. Mae Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu (CITB) newydd ddechrau prosiect peilot sy'n creu cysylltiadau uniongyrchol rhwng ysgolion lleol a chwmnïau adeiladu i ddatblygu ymwybyddiaeth o'r ystod o gyfleoedd cyflogaeth i'r dyfodol ynghyd â'r sgiliau cysylltiedig a fynnir.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 23-Feb-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST118	Ni fydd lleoedd hyfforddi yn diwallu dyheadau ac anghenion cyflogwyr presennol ac yn y dyfodol.	Risg Strategol	Jeanette Rock - Prif Swyddog Addysg, Cynhwysiad	Claire Homard – Uwch Reolwr – Gwella Ysgolion				Agored

Effeithiau Posibl: Ni chaiff preswylwyr Sir y Fflint fynediad i ystod addas o gymwysterau a fydd yn hwyluso recriwtio llwyddiannus o fewn yr ardal leol.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn cael ei chynhyrchu gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddarparwyr i godi ymwybyddiaeth o anghenion hyfforddi. Cynhelir trafodaethau ynghylch y wybodaeth hon drwy'r fforymau presennol.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 29-Tach-2016

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST119	Ni fydd amserlenni rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn cwrdd â thargedau a gofynion lleol.	Risg Strategol	Jeanette Rock - Prif Swyddog Addysg, Cynhwysiad	Claire Homard – Uwch Reolwr – Gwella Ysgolion				Agored

Effeithiau Posibl: Llai o amser i wneud y defnydd gorau o gyllid ESF sy'n arwain at lefel isel o effaith ar bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio a bod yn NEET (Ddim Mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant).

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant gyda staff ysgolion i adolygu cymhwyster a systemau TRAC. Mae hyn wedi hwyluso gwell dealltwriaeth o bwrpas y prosiect ynghyd â phrosesau y mae angen ymgymryd â hwy i gael mynediad i'r ddarpariaeth a'i adael. Dylai'r ddarpariaeth lawn o ran gweithwyr a gwell ymwybyddiaeth o'r broses hwyluso mwy o gyfranogiad.



Diweddarwyd Ddiwethaf: 17-Chwef-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogio n Ategol	Mesur Risg Cychwynn ol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST120	Nid yw ysgolion yn derbyn nac yn gwneud y defnydd gorau o'r cymorth sydd ei angen gan y Cyngor a GwE	Risg Strategol	Claire Homard – Uwch Reolwr – Gwella Ysgolion	Jeanette Rock - Prif Swyddog Addysg, Cynhwysiad				Agored

Effeithiau Posibl: Mae ysgolion yn llai hyddysg o ran datblygiadau a pha gamau y dylid eu cymryd ganddynt i sicrhau gwelliant parhaus. Gwneir llai o gynnydd o ran gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Ystyrir fod risg o ran bod tystiolaeth nad yw ysgolion yn gwneud y defnydd gorau o'r cymorth a ddarperir gan y Cyngor neu GwE a byddant yn cael eu targedu fel rhan o'r Grŵp Monitro Perfformiad Ysgolion a'u herio i ymgysylltu. Gallai methiant parhaus i ymgysylltu arwain at gyflwyno Hysbysiad Rhybuddio gan y Prif Swyddog i'r ysgol o dan ganllawiau Ysgolion sy'n Achosi Pryder gan Lywodraeth Cymru.


Diweddarwyd Ddiwethaf: 26-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogio n Ategol	Mesur Risg Cychwynn ol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST121	Ni fydd nifer y lleoedd mewn ysgolion yn ddigonol i fodloni gofynion demograffeg newidiol y dyfodol	Risg Strategol	Damian Hughes - Uwch Reolwr, Cynllunio a Darpariaeth	Claire Homard – Uwch Reolwr – Gwella Ysgolion				Agored

Effeithiau Posibl: Cymarebau dysgu uwch, lleoedd gweigion, pwysau o ran ôl-groniad gwaith cynnal a chadw.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae lleihau niferoedd lleoedd gweigion mewn ysgolion drwy newid trefn yr ysgolion yn broses barhaus. Gall prosiectau i newid ysgolion gymryd rhwng tair i bum mlynedd o'u cychwyn i'w cyflawni cyn y gellir gwireddu gostyngiadau yn niferoedd y lleoedd gweigion. Mae hyn yn parhau i fod yn broses barhaus sy'n gysylltiedig â'r broses o foderneiddio ysgolion. I ategu hyn, bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion i ystyried dulliau arloesol o leihau capasiti fesul ysgol (h.y. gwneud defnydd amgen o gyfleusterau ysgolion gan grwpiau eraill) gyda'r amcan o gyflawni targedau cenedlaethol ran lleoedd gweigion o 10% ym mhob sector ysgol. Bydd y penderfyniadau diweddar o ran newid trefn ysgolion yn arwain at ostyngiad yn niferoedd y lleoedd gweigion ar draws yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Fel ciplun, mae prosiect Campws Dysgu Treffynnon wedi arwain at ostyngiad o 450 yn nifer y lleoedd gweigion yn yr ardal hon.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 17-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST122	Cyllid cyfyngedig i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith atgyweirio hysbys o fewn asedau Addysg ac Ieuenctid.	Risg Strategol	Damian Hughes - Uwch Reolwr, Cynllunio a Darpariaeth	Claire Homard – Uwch Reolwr – Gwella Ysgolion	Red	Red		Agored

Effeithiau Posibl: Ysgolion yn methu gweithredu'n effeithiol, posibilrwydd o gyfnodau segur mewn ysgolion, effaith negyddol ar gyflwyno'r cwricwlwm.




Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Parhad y rhaglen Foderneiddio Ysgolion yw un o'r opsiynau strategol sydd ar gael i fynd i'r afael a'r ôl-groniad atgyweirio a chynnal a chadw. Bydd parhad y rhaglen hefyd:

- i) Yn cefnogi'r gwaith o leihau lleoedd gweigion
- ii) Yn darparu ystâd ysgolion fwy effeithlon ac yn canolbwyntio adnoddau ar ddysgu drwy ddileu costau sefydlog nad oes eu heisiau o fewn y seilwaith a'r arweinyddiaeth.
- iii) Yn sicrhau bod cyflwr ac addasrwydd yr ystâd ysgolion yn cael eu gwella.




Yn ogystal, mewn blynyddoedd i ddod, cyflwynir achosion busnes cyfalaf ar gyfer gwelliannau a gwaith atgyweirio, ynghyd â phrosiectau cynnal a chadw mewn ysgolion i'w hystyried drwy broses achosion busnes y Cyngor.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 17-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
-----------	------------	-------------	-------------------	-------------------	-----------------------	---------------------	---------------	-------------

ST123	Nid yw'r capasiti arwain yn cyfateb ag anghenion yr ysgol.	Risg Strategol	Claire Homard – Uwch Reolwr – Gwella Ysgolion	Jeanette Rock - Prif Swyddog Addysg, Cynhwysiad				Agored
<p>Effeithiau Posibl: Nid yw dysgwyr yn Sir y Fflint yn gadael gyda chymwysterau addas i'w galluogi i fynd ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth. Mae safonau ysgol cyffredinol yn dirywio gyda chynnydd mewn ysgolion sy'n mynd i mewn i gategori Estyn ac sydd angen lefelau sylweddol o ymyrraeth er mwyn gwella.</p> <p>Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae gan bob ysgol yn Sir y Fflint ar hyn o bryd drefniadau arweinyddiaeth priodol yn eu lle. O'r 64 ysgol gynradd, ceir dwy swydd Pennaeth Dros Dro – un mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion ac un mewn perthynas â secondiad dros dro y Pennaeth parhaol i'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol. Yn y sector uwchradd, lle ceir 12 ysgol, mae gan ddwy swydd Pennaeth dros dro ar gyfer swyddi gweigion, y byddir yn eu hysbysebu er mwyn diogelu penodiadau parhaol.</p> <p>Diweddarwyd Ddiwethaf: 19-Rhag-2016</p>								




5 Cymunedau Diogel

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST124	Diffyg arian cynaliadwy i gyflenwi blaenoriaethau diogelwch cymunedol a bennir yn genedlaethol.	Risg Strategol	Sian Jones – Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd					Agored

Effeithiau Posibl: Anallu i gyflenwi gwasanaethau.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Derbyniwyd pob grant allanol yn ystod 2016/17 a darparwyd hawliadau ariannol priodol a gwybodaeth fonitro i'r cyllidwyr.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 16-Mai-2017


Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST125	Cadw staff profiadol a medrus oherwydd y drefn o ariannu grantiau tymor byr.	Risg Strategol	Sian Jones – Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd					Agored

Effeithiau Posibl: Gall prinder staff effeithio ar gyflenwi gwasanaethau.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Derbyniodd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol gyllid parhaus yn ystod 2016/17 oedd wedi galluogi parhad y gwasanaethau a gomisiynir ganddynt.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 03-Mai-2017


6 Tlodi

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST126	Ni fydd galw am wasanaethau cyngor a chymorth yn cael ei fodloni.	Risg Strategol	Katie Clubb - Rheolwr Gwasanaethau Cymorth	Pam Davies – Arweinydd Tîm Opsiynau Tai	Yellow	Yellow		Agored

Effeithiau Posibl: Bydd darparwyr gwasanaeth gydag adnoddau annigonol i gwrdd â'r galw'n creu rhestrau aros maith ac ni fydd preswylwyr yn gallu cael mynediad i gyngor amserol sy'n atal problemau rhag gwaethygu i fod yn rhai sydd angen ymyraethau arbenigol mwy costus.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: O Hydref 2016 lleolwyd Tîm Hawliau Lles y Cyngor yn swyddfa Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint yn yr Wyddgrug. Cyflwynwyd y cydweithredu hwn gyda Chyngor ar Bopeth Sir y Fflint i wneud y defnydd mwyaf effeithlon bosibl o adnoddau'r gwasanaeth, ynghyd â chynyddu nifer yr aelwydydd a gynorthwywyd i gael mynediad i'r ystod gywir o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol y mae ganddynt hawl iddynt. Yn ogystal, mae'r Pwrth Cyngor a Chymorth Tai wedi parhau i helpu darparwyr i reoli'r galw o du aelwydydd sy'n profi problemau lles cymdeithasol o ganlyniad i waith trawsnewid parhaus y system nawdd cymdeithasol.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 15-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST127	Bydd lefelau dyled yn codi os na fydd tenantiaid yn gallu fforddio talu eu rhent.	Risg Strategol	Katie Clubb - Rheolwr Gwasanaethau Cymorth	Jen Griffiths – Rheolwr Budd-daliadau	Amber	Amber		Agored

Effeithiau Posibl: Yn 2018, bydd y gostyngiadau yn y cymorth ariannol a ddarperir gan fudd-daliadau lles i helpu tenantiaid ar incwm isel i dalu eu costau tai, ynghyd ag ehangu'r Gwasanaeth Credyd Cynhwysol Llawn ar draws Sir y Fflint yn cynyddu nifer yr aelwydydd sy'n cronni ôl-ddyledion rhent. Yn ogystal, o ran rhai aelwydydd, e.e. pobl sengl o dan 35, byddant yn gweld nad yw eu heiddo tai cymdeithasol mwyach yn opsiwn tai fforddiadwy o Ebrill 2018.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Oherwydd cyflwyniad parhaus ac araf Credyd Cynhwysol o fewn Sir y Fflint yn 2016/17 mae nifer yr hawlwr sydd hefyd yn denantiaid yn dal i fod yn isel, a chafwyd cynnydd bach yn nifer y rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwrth Cyngor a Chymorth Tai yn cyfeirio achosion at y Swyddog Dyled Arbenigol lle bo angen, ac mae'r gwasanaeth cyllidebu personol a gyflenwir gan Gyngor ar Bopeth Sir y Fflint wedi ymdopi â'r galw o blith hawlwr Credyd Cynhwysol.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 15-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST128	Bydd yr economi leol yn dioddef os bydd gan drigolion lai o incwm i'w wario.	Risg Strategol	Katie Clubb - Rheolwr Gwasanaethau Cymorth	Jen Griffiths – Rheolwr Budd-daliadau				Agored

Effeithiau Posibl: Bydd y diwygiadau lles yn lleihau lefelau incwm yn Sir y Fflint ar gyfartaledd o £500 yr oedolyn o oed gweithio y flwyddyn erbyn 2018. Caiff hyn effaith ganlyniadol ehangach o ran economi Sir y Fflint o ystyried y bydd gan aelwydydd (yn enwedig aelwydydd incwm isel) lai o arian i'w wario ar nwyddau a gwasanaethau lleol.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Yn 2016/17 derbyniodd preswylwr Sir y Fflint gyngor a chymorth arbenigol i gael mynediad at fudd-daliadau nawdd cymdeithasol parhaus a oedd yn werth £1,579,380 sy'n cynyddu pŵer gwario'r aelwydydd hyn o fewn yr economi leol.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 15-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST129	Nid yw trigolion yn manteisio ar y mesurau effeithlonrwydd ynni sydd ar gael.	Risg Strategol	Niall Waller - Rheolwr Menter ac Adfywio					Agored

Effeithiau Posibl: i) Peidio â defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'w llawn botensial ii) Biliau ynni aelwydydd yn uwch na fo angen iii) Tlodi tanwydd yn parhau i fod yn uwch na fo angen.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Bu lefel gref o alw am gamau effeithlonrwydd ynni ac yn enwedig o ran yr inswleiddiad ar gyfer waliau allanol a gynigir yng Nglannau Dyfrdwy. Mae'r holl adnoddau sydd ar gael wedi'u defnyddio'n llawn.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 28-Ebrill-2017


Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST130	Ni fydd yr arian sydd ar gael ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni yn bodloni galw'r cyhoedd.	Risg Strategol	Niall Waller – Rheolwr Menter ac Adfywio					Agored

Effeithiau Posibl: i) Gall rhwystredigaeth y cyhoedd a llai o arian effeithio ar enw da'r Cyngor. ii) Efallai na fydd cyfleoedd i leihau costau aelwydydd a thlodi tanwydd yn cael eu gwireddu'n llawn.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae'r sefyllfa'n parhau o ran mwy o alw am gamau effeithlonrwydd ynni nag y mae'r lefel ariannu bresennol yn ei chaniatau, yn enwedig ar gyfer paneli solar ac inswleiddiad ar gyfer waliau allanol. Mae disgwyliadau'n cael eu rheoli gymaint â phosibl a byddir yn mynd ati'n weithredol i gynyddu lefel y ddarpariaeth.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 28-Ebrill-2017




7 Yr Amgylchedd

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST131	Digon o gyllid i sicrhau bod seilwaith ein priffyrdd yn parhau i fod yn ddiogel ac yn gallu cynnal twf economaidd.	Risg Strategol	Stephen Jones - Prif Swyddog - Stryd wedd a	Barry Wilkinson – Rheolwr Rhwydweithiau Priffyrdd				Wedi cau

Effeithiau Posibl: Byddai diffyg cyllid digonol yn arwain at ddirywiad o ran cyflwr y seilwaith priffyrdd ar draws Sir y Fflint.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Cwblhawyd gwaith ataliol a chywirol ar draws nifer o gynlluniau gwella a chynnal a chadw o ran y safleoedd ag iddynt y flaenoriaeth uchaf o fewn y rhwydwaith yn ôl yr hyn a gynlluniwyd, yn unol â'r cyllid a dderbyniwyd.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 26-Mai-2017




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST132	Nid yw dewisiadau trafndiaeth cynaliadwy yn parhau i fod yn ddeniadol i ddefnyddwyr.	Risg Strategol	Stephen Jones - Prif Swyddog - Stryd wedd a	Katie Wilby - Rheolwr Cludiant a Logisteg				Agored

Effeithiau Posibl: Cynnydd o ran y defnydd unigol o geir. Cynnydd o ran dirywiad y briffordd. Peidio â chyflawni gofynion Bil Teithio Llesol Cymru.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol drwy Gynlluniau Lleol, Rhanbarthol a Chludiant Cenedlaethol yn edrych ar ymyriadau cludiant fel tocynnau integredig, partneriaethau o ansawdd, safonau ansawdd cerbydau, gwelliannau i seilwaith a datblygu gwasanaethau amgen fel gwasanaethau cludiant cymunedol.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 17-Chwef-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
-----------	------------	-------------	-------------------	-------------------	-----------------------	---------------------	---------------	-------------




ST133	Ni fydd cyllid digonol ar gael i barhau i ddarparu gwasanaethau bysiau â chymhorthdal.	Risg Strategol	Stephen Jones - Prif Swyddog - Stryd wedd a	Katie Wilby - Rheolwr Cludiant a Logisteg				Agored
-------	----------------------------------------------------------------------------------------	----------------	---------------------------------------------	-------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------	--------

Effeithiau Posibl: Gostyngiad mewn gwasanaethau bysiau i breswylwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae gwaith yn parhau i wneud gwasanaethau presennol yn fwy cynaliadwy ac i ddarparu cymorth i'r diwydiant bysiau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru gydag Uwchgynhadledd Bysiau'n cael ei chynnal ar 23.01.2017. Hwyluswyd yr Uwchgynhadledd Bysiau gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ddwyn ynghyd defnyddwyr y diwydiant, darparwyr a gwneuthurwyr polisïau i lunio strategaeth gynaliadwy a blaengar ar gyfer y diwydiant bysiau yng Nghymru.

Mae gwasanaethau bysiau gyda chefnogaeth sy'n bodoli eisoes yn gweithredu o fewn y lefelau ariannol presennol ar gyfer 2016-2017.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 17-Chwef-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST134	Lleihad yn y Grant Amgylchedd Sengl.	Risg Strategol	Andrew Farrow - Prif Swyddog - Cynllunio a'r Amgylchedd					Agored

Effeithiau Posibl: Lleihad posibl mewn darpariaeth gwasanaeth i'r dyfodol.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae lleihad yn y Grant Amgylchedd Sengl yn parhau i fod yn risg gan fod Llywodraeth Cymru wedi parhau gyda setliad llai ar gyfer 2017-18. Codwyd hyn fel pwysau cyllidebol ar gyfer 2017-18.


Diweddarwyd Ddiwethaf: 19-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST135	Ni chaiff rhaglenni ailgylchu eu cefnogi gan y cyhoedd a gweithwyr	Risg Strategol	Stephen Jones - Prif Swyddog - Stryd wedd a Chludiant	Harvey Mitchell - Rheolwr Gwastraff a Gwasanaethau Ategol				Agored

Effeithiau Posibl: Lleihad mewn incwm o ailwerthu deunydd ail-gylchu. Costau uwch ar gyfer torri cyfraith Ewropeaidd. Heb gyflawni targedau lleihau carbon.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae tunelledd ailgylchu wedi gwella ar y flwyddyn flaenorol. Cynhaliwyd ymgyrch addysgu ledled y Sir cyn y Nadolig i hysbysu preswylwyr am gynydd o ran ystod a mathau'r deunyddiau a gesglir gennym. Mae ymgyrchoedd pellach yn benodol ar gyfer bwyd wedi'u cynllunio ar gyfer mis Mawrth. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro o ystyried y cynnydd yn yr hyn y gellir ei ailgylchu a bod y cyhoedd yn dod yn fwy ymwybodol o ystod y deunyddiau y gellir eu casglu erbyn hyn.


Diweddarwyd Ddiwethaf: 23-Chwef-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST136	Cyfyngiadau ar safleoedd Cyngor addas ag arwynebedd digonol ar gyfer cynlluniau adnewyddu graddfa mwy a chysylltiadau addas â'r grid trydan.	Risg Strategol	Andrew Farrow – Prif Swyddog – Cynllunio a'r Amgylchedd		Amber	Amber		Agored

Effeithiau Posibl: Anallu i gynhyrchu pŵer drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy a reolir gan CSFf. Parhau i dalu prisiau'r farchnad am ynni.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Lluniwyd rhestr o safleoedd posibl mewn partneriaeth efo tîm Twf Gwyrdd Cymru, mae'r rhain yn cael eu hadolygu a sefydlir rhaglen ar gyfer bob un yn ystod 2017-18.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 19-Mai-2017




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST137	Ni chaiff arian ei sicrhau ar gyfer cynlluniau blaenoriaeth lliniaru llifogydd.	Risg Strategol	Andrew Farrow – Prif Swyddog – Cynllunio a'r Amgylchedd		Red	Red		Agored

Effeithiau Posibl: Ni fydd cynlluniau llifogydd yn cael eu cyflenwi.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Roedd y gwaith o fonitro'r grantiau a oedd ar gael wedi parhau yn ystod 2016-17 a datblygwyd cais cyfalaf ar gyfer y posibilrwydd o fynd i'r afael â chynlluniau risg llifogydd hefyd. Codwyd cynllun yr Wyddgrug fel prosiect Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a fydd yn darparu mwy o gryfder wrth geisio cael cyfalaf. Mae adolygiad o'r cynllun a ganiatawyd yn yr Wyddgrug ar fynd hefyd.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 19-Mai-2017




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
-----------	------------	-------------	-------------------	-------------------	-----------------------	---------------------	---------------	-------------

ST138	Ni chaiff disgwyliadau cwsmeriaid yn ymwneud â chyflenwi cynlluniau lliniaru llifogydd eu rheoli'n effeithiol	Risg Strategol	Andrew Farrow – Prif Swyddog – Cynllunio a'r Amgylchedd					Agored
-------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------	---------------------------------------------------------	--	-------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------	--------

Effeithiau Posibl: Ni fydd cynlluniau llifogydd yn cael eu cyflawni.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Disgwyliad y cyhoedd (sy'n gwella) yw y gellir dileu neu reoli'r risg o lifogydd drwy gyflenwi cynlluniau lliniaru llifogydd gan yr Awdurdod Lleol. Efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl oherwydd cyfyngiadau technegol, amgylcheddol, cyllidol neu eraill. Rhaid i gynlluniau posibl allu arddangos cymarebau costau a manteision cadarnhaol ac yna dylid eu hystyried a'u blaenoriaethu yn ôl ymagwedd genedlaethol yn seiliedig ar risg. O ystyried y pwysau presennol ar gyllid cyhoeddus, mae'r cyllid sydd ar gael i fynd i'r afael â'r risg o lifogydd yn annhebygol o fod yn ddigonol, a chynyddu wnaiff y pwysau gyda'r risg cynyddol yn y dyfodol o ganlyniad i ragor o ddatblygu ynghyd â hinsawdd sy'n newid. Fel y cyfryw, bydd angen gwella dulliau o reoli'r risg o lifogydd ynghyd â gwydnwch lleol drwy gael pawb i weithio gyda'i gilydd a thrwy gael y rheiny sydd mewn perygl o lifogydd yn cymryd cyfrifoldeb i amddiffyn a helpu eu hunain.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 19-Mai-2017




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST139	Ni chaiff rhaglenni troseddu amgylcheddol eu cefnogi gan y cyhoedd a gweithwyr.	Risg Strategol	Stephen Jones - Prif Swyddog - Stryd wedd a	Harvey Mitchell - Rheolwr Gwastraff a Gwasanaethau				Agored

Effeithiau Posibl: Problemau parhaus gydag ysbwriel, graffiti a cholli ansawdd yr amgylchedd.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Yn ystod chwarter 3, hyd yma, bu cynllun pilot yng nghyswllt gorfodaeth amgylcheddol yn defnyddio contractwr arbenigol yn llwyddiannus gyda nifer yr FPNs a gyflwynwyd dros yn 2,800. Ceir tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu y bu lleihad yn yr ysbwriel sy'n cael ei ollwng yng nghanol ein trefi.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 17-Chwef-2017

8 Cyngor Modern ac Effeithlon

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST140	Gallu ac awydd y gymuned a sectorau cymdeithasol.	Risg Strategol	Ian Bancroft - Prif Swyddog - Newid Sefydliadol 1	Dawn Holt – Rheolwr Rhaglen Modelau Darpariaeth Amgen a Thrawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol				Agored

Effeithiau Posibl: Dim cynnydd yn nifer a chryfder y sectorau cymunedol a chymdeithasol sydd yn ei dro'n cyfyngu capasiti cymunedau i gynorthwyo gyda throsglwyddo asedau cymunedol a rhaglenni eraill.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Ar gyfer 2016/17 mae gennym ddeg cynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol sydd naill ai wedi'u cwblhau neu sy'n agos i'w cwblhau'n gyfreithiol (ynghyd â 3 arall nad ydynt wedi cyrraedd y cam hwn ond a fydd wedi gwneud hynny'n fuan, ynghyd â 2 arall sydd wedi'u cwblhau gydag ysgolion a chymunedau fel Cytundebau Trosglwyddo Rheolaeth yn hytrach na Throsglwyddo Asedau, os cynhwysir y rhain ceir cyfanswm o 15 yn 2016/17). Yn ogystal, mae 5 gwasanaeth erbyn hyn wedi cael eu cytuno gan y Cabinet o ran mynd ymlaen i 3 Model Darparu Amgen. Mae hyn yn arddangos capasiti ac awydd y sectorau cymunedol a chymdeithasol i weithio gyda'r cyngor i gynnal gwasanaethau pwysig ar gyfer cymunedau lleol.

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST141	Parodrwydd y gweithlu a'r undebau llafur i groesawu newid	Risg Strategol	Ian Bancroft - Prif Swyddog - Newid Sefydliadol 1	Dawn Holt – Rheolwr Rhaglen Modelau Darpariaeth Amgen a Thrawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol				Agored

Effeithiau Posibl: Methu cyflawni amcanion o ran newid sefydliadol.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Gwnaed gwaith manwl gyda staff ac undebau llafur ar y cynlluniau trosglwyddo asedau a'r pum gwasanaeth sy'n sefydlu dulliau Darparu Amgen. Ym mhob achos, daethpwyd i gytundeb â'r staff a'r undebau llafur sy'n arddangos eu hawydd i weithio ar yr agenda hon mewn modd cydweithredol.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 26-Ebrill-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST142	Amodau'r farchnad y mae'r modelau darparu amgen newydd yn eu hwynebu.	Risg Strategol	Ian Bancroft - Prif Swyddog - Newid Sefydliadol 1	Dawn Holt – Rheolwr Rhaglen Modelau Darpariaeth Amgen a Thrawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol				Agored

Effeithiau Posibl: Bydd Modelau Darparu Amgen newydd yn gweld lleihad mewn incwm a fydd yn y diwedd yn anghynaliadwy.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Yn agosáu at gwblhau diwydrwydd terfynol o ran y 5 gwasanaeth sy'n sefydlu MDA. Mae hyn wedi cynnwys asesiadau terfynol o'r farchnad sy'n arddangos y gall bob un o'r tri MDA newydd gystadlu a chydweithredu o fewn y marchnadoedd y maent yn mynd i mewn iddynt.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 25-Ebrill-2017


Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST143	Cyfyngiadau ar arian cyhoeddus i roi cymhorthdal i fodelau amgen.	Risg Strategol	Ian Bancroft - Prif Swyddog - Newid Sefydliadol 1	Dawn Holt – Rheolwr Rhaglen Modelau Darpariaeth Amgen a Thrawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol				Agored

Effeithiau Posibl: Mae Modelau Darparu Amgen yn dod yn anghynaliadwy gan na ellir cwrdd â'r costau yn sgil llai o arian gan y Cyngor.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae gwaith diwydrwydd terfynol ar gyfer bob un o'r tri Model Darparu Amgen newydd yn dangos bod lefel yr arian cyhoeddus sydd ar gael yn y dyfodol y gellir ei ragweld yn ddigonol i gefnogi'r cwmnïau newydd.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 26-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
-----------	------------	-------------	-------------------	-------------------	-----------------------	---------------------	---------------	-------------

ST144	Rheoliadau caffael yn ein hatal rhag datblygu marchnadoedd y gymuned a'r sector cymdeithasol lleol	Risg Strategol	Arwel Staples – Rheolwr Caffael Strategol		Yellow	Yellow		Wedi cau
-------	----------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------	-------------------------------------------	--	--------	--------	-------------------------------------------------------------------------------------	----------


Effeithiau Posibl: Cynnydd annhebygol mewn gwariant gyda Mentrau Bach a Chanolig (SMEs) a chyflenwyr yn trydydd sector.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Datblygwyd strategaeth gaffael gorfforaethol newydd. Mae'r strategaeth wedi'i chymeradwyo bellach ac un o'r canlyniadau allweddol yw datblygu cyflenwyr lleol, defnydd cynyddol o fuddion cymunedol a chynnydd mewn gwariant gyda Mentrau Cymdeithasol.

Cynhaliwyd nifer o Weithdai Hyfforddi i hyrwyddo'r Strategaeth newydd.

Yn ogystal, bydd cyflwyno'r Ffurflen Gomisiynu yn hwyluso ystyriaeth o fentrau caffael sy'n gyfeillgar i SME's a'r Trydydd Sector ar gyfer prosiectau unigol. O ganlyniad, dylid bod mwy o gyfleoedd ar gyfer y marchnadoedd lleol a thrydydd sector oherwydd lotio tendrau mewn modd perthnasol yn ogystal â gwneud dogfennau tendro yn fwy cyfeillgar ar gyfer y farchnad.



Diweddarwyd Ddiwethaf: 18-Ebrill-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST145	Bydd Mentrau Cymdeithasol sydd newydd eu sefydlu yn methu yn ystod y camau datblygu cynnar.	Risg Strategol	Ian Bancroft - Prif Swyddog - Newid Sefydliadol 1	Dawn Holt – Rheolwr Rhaglen Modelau Darpariaeth Amgen a Thrawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol, Mike Dodd – Swyddog Arweiniol Datblygu Mentrau Cymdeithasol	Amber	Amber		Agored

Effeithiau Posibl: Nid yw mentrau cymdeithasol newydd yn gynaliadwy ac maent yn cael eu diddymu.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Erbyn dechrau 2017, bydd gwaith ar Fodelau Darparu Amgen a Throsglwyddo Asedau Cymunedol yn arwain at bedair menter gymdeithasol fawr newydd yn gweithredu yn Sir y Fflint. Mae'r rhain yn cynnwys: Cambrian Aquatics, Canolfan Hamdden Treffynnon, Hamdden a Llyfrgelloedd Sir y Fflint, HF Trust. Mae'r sefydliadau hyn yn cryfhau'r sector mentrau cymdeithasol yn Sir y Fflint, a thrwy'r hyn a ddysgir ganddynt a'r modd y maent yn rhannu ymarfer cydweithredol, bydd yn galluogi'r sector i ddelio â materion yn nyddiau cynnar sefydlu menter gymdeithasol. Bydd hyn yn ychwanegu at waith gweithgory y sector mentrau cymdeithasol sydd â chynllun i roi cefnogaeth i'r sector yn ystod 2017.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 26-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST146	Bydd Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol sydd newydd eu sefydlu yn methu yn ystod y camau datblygu cynnar	Risg Strategol	Neal Cockerton – Prif Swyddog - Newid Sefydliadol 2	Dawn Holt – Rheolwr Rhaglen Modelau Darpariaeth Amgen a Thrawsnewid y Gwasanaethau				Agored

Effeithiau Posibl: Nid yw mentrau cymdeithasol newydd yn gynaliadwy ac maent yn cael eu diddymu.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae'r gwaith o fonitro cyflawniadau Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol (TAC) yn ystod eu blwyddyn gyntaf wedi dechrau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod efo pob sefydliad i drafod eu sefyllfa ariannol a chyflawni buddion cymunedol. Ar y cam hwn, ni chanfuwyd unrhyw risgiau arwyddocaol o ran methu.




Diweddarwyd Ddiwethaf: 15-Mai-2017

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST147	Graddfa'r her ariannol.	Risg Strategol	Gary Ferguson – Rheolwr Cyllid Corfforaethol	Sara Dulson – Rheolwr Cyllid				Agored

Effeithiau Posibl: Nid oes gan y Cyngor gyllid digonol i gyflawni ei flaenoriaethau a'i rwymedigaethau.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Bellach, mae'r Setliad Llywodraeth Leol Terfynol wedi'i dderbyn ar gyfer 2017/18 ac mae'n fwy ffafriol na'r ffigwr a ragwelwyd o fewn y rhagolwg. Mae'r gyllideb flynyddol ar gyfer 2017/18 wedi'i phennu bellach. Mae'r risgiau'n parhau i fod yn uchel ar gyfer blynyddoedd y gyllideb i'r dyfodol.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 24-Ebrill-2017




Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST148	Gallu'r sefydliad i weithredu'r newidiadau angenrheidiol.	Risg Strategol	Sharon Carney - Partner Busnes					Agored

Effeithiau Posibl: Ni ellir cyflawni'r amcanion o ran newid sefydliadol.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Yn gyffredinol, mae'r rhaglenni newid sefydliadol yn dilyn eu hamserlenni ac o fewn eu cyllidebau.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 29-Tach-2016

Teitl Risg	Swyddog Arweiniol	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Y Ganran a gwblhawyd	Sylwadau o ran Cynnydd
Cynlluniau manwl o ran y gweithlu ar gyfer bob portffolio.	Sharon Carney-Partner Busnes Arweiniol	03-Ebrill-2017	31-Maw-2018	80	Mae bob portffolio wedi cwblhau cynllun gweithlu lefel uchel ar gyfer eu huwch dimau rheoli a'r ddwy neu dair haen nesaf. Y cam nesaf yw i'r portffolios asesu gofynion y gweithlu ehangach i'r dyfodol gan ystyried unrhyw newidiadau yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar y staffio o fewn y meysydd gwasanaeth perthnasol.


Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST149	Cyflymder cydweithrediadau caffael a'n rheolaeth gyfyngedig dros eu datblygiad.	Risg Strategol	Gareth Owens - Prif Swyddog - Llywodraethu	Arwel Staples - Rheolwr Caffael Strategol				Agored

Effeithiau Posibl: Ni fydd arbedion effeithlonrwydd o ran caffael yn cael eu gwireddu.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) wedi cynyddu pa mor gyflym y bydd cydweithio ym maes caffael yn cael ei gyflawni gyda 30+ o gytundebau fframwaith yn eu lle a phrosiectau pellach wedi'u canfod. Mae'r gwaith o gyflawni'r rhaglen waith yn cael ei fonitro'n agos.

Fodd bynnag, mae'r buddion gwirioneddol i'r Cyngor yn sgil cytundebau fframwaith y NPS yn amrywio, felly mae angen monitro'r buddion gwirioneddol ymhellach wrth fynd ymlaen.

Cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ddatblygu Cynllun Gweithredu i bennu a ellir gwireddu arbedion effeithlonrwydd gweladwy drwy'r cytundebau fframwaith cydweithredol sydd wedi'u cyflawni eisoes.

Cyf. Risg	Teitl Risg	Math o Risg	Swyddog Arweiniol	Swyddogion Ategol	Mesur Risg Cychwynnol	Mesur Risg Cyfredol	Tueddiad Risg	Statws Risg
ST150	Agwedd y cyhoedd tuag at gael gafael ar wasanaethau ar-lein.	Risg Strategol	Clare Budden - Prif Swyddog - Cymuned a Menter	Rebecca Jones - Arweinydd Tîm Gwasanaethau	Yellow	Yellow		Agored

Effeithiau Posibl: Ni fydd yr arbedion effeithlonrwydd a dargedir drwy bobl yn newid i gael mynediad i wasanaethau yn cael eu cyflawni.

Sylwadau'r Swyddog Ategol Arweiniol: Mae'r Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ac mae'n nodi cynllun y Cyngor i drawsnewid mynediad i gwsmeriaid i wasanaethau'r Cyngor dros y pum mlynedd nesaf; bydd hyn yn cynnwys adolygiad o sut y mae cwsmeriaid yn cael mynediad i wasanaethau'r Cyngor ar hyn o bryd ynghyd â chyfleoedd i foderneiddio'r holl sianelau mynediad wyneb yn wyneb, ffôn a digidol. Yn chwarter 4, roedd y Cyngor yn parhau i weld nifer y trafodion digidol ar-lein yn codi gyda 11,142 o gwsmeriaid yn dewis gohebu â'r Cyngor ar-lein drwy'r wefan. Yn ogystal, cafwyd cynnydd o 19% yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwefan y Cyngor. Mae Gwasanaethau Cymorth i Gwsmeriaid yn parhau i weithio'n agos gyda TGCh i flaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer trawsnewid.

Diweddarwyd Ddiwethaf: 10-Mai-2017